

Impelo

nurturing movement

yn feithrin symudiad

BaCh

creativity for under 5s

creadigrwydd i blant o dan 5

# EARLY YEARS MOVEMENT PRACTITIONER (MID & NORTH POWYS)

## FREELANCE WORK OPPORTUNITY

Photo: Ali Curzon

Impelo

# PROJECT DESCRIPTION

**Impelo's pioneering project for the early years, BACH looks at different ways through which parents and carers can be supported to be creative with their little ones through dance and play. Bach works with babies and toddlers as well as early years settings, embedding creative movement into all learning to support creative curiosity and physical confidence. We create opportunities through which families can move together to support their children under 5 years as well as opportunities for children to find their independence through movement themselves.**

As part of this project we are offering a freelance contract to an individual based in mid or north Powys which will include; training and mentoring, shadowing, CPD and time to develop your movement practice to then deliver on the Bach project for Impelo in north Powys.

**Fee: £2000 for approx. 15 days**

**Timeframe: May - August 2023**



Photo: Full Mongrel & Co

**Contract includes (dependant on experience)**

- Shadowing of weekly sessions with Impelo in Llandrindod, Builth Wells and Newtown
- Undertake any relevant training and to support individual CPD
- Mentoring time and 1:1 sessions with lead dance practitioner on the Bach programme
- Individual R&D time as part of CPD
- Delivery of Bach dance sessions in North Powys for Impelo

Impelo

# ABOUT YOU

## ESSENTIAL

- Hold a UK drivers license and happy to travel
- Have experience in dance, creative movement or physical literacy and/ or an education background. Similarly applicants are welcome from those from a midwifery or health visitor background
- A commitment to developing dance and movement in your professional practice
- Have a current DBS or willing to have one
- Creativity, being ok with letting go, going with the flow - Being creative and responsive in the moment, meeting people where they are and co-creating with communities is a big part of the Bach approach, the ability to be open, expressive and comfortable with being creative is essential to the delivery of our Bach sessions.
- Warm, friendly and passionate about movement opportunities for families
- Would be comfortable joining workshops/co-facilitating
- A passion for community dance and the benefits it can bring to children, young people, people with disabilities and older adults
- Empathy and active listening
- Flexible and adaptable to changing demands and challenges

## DESIREABLE

- Welsh speaker/learner
- Dance experience - in a participatory and or performance context and an understanding of the sector
- Based in North Powys or happy to travel



Photo: Ali Curzon

Impelo

# ABOUT US

**IMPELO IS A SMALL BUT MIGHTY CHARITABLE INCORPORATED ORGANISATION BASED IN BEAUTIFUL POWYS MID WALES.**

Flourishing partnerships seeded in difficult times with health, social care, artists and education, which underpin the scaling of bright ideas and playful new work with transformative outcomes in wellbeing, inclusion, talent and learning.

**Our Mission is to connect and inspire individuals, communities and organisations through the joy of dance – empowering diverse voices, curiosity, ambition and lifelong learning.**

To understand a bit more about the work we do with under 5's, please click the following links:

Bach Webpage

Parent/ Carer and Toddler video

Dance Play Packs



Photo: Ali Curzon

If you'd like more information about the project, have a disability and/or D/deaf access support required in order to apply, or have any questions/queries, please get in touch jemma@impelo.org.uk and we can arrange a chat/text over the phone or a video call.

Impelo

# TO APPLY

Email jemma@impelo.org.uk by deadline 5pm 21st April with the following:

- A short paragraph (max 500 words) or a short audio message/video expressing your interest in applying for the project
- A CV/description of your experience/interests. (in document, audio or video form)

Diversity in all its forms makes this and all our projects stronger and we positively encourage deaf and disabled people, African Diaspora people, South East and South Asian people, or people from other ethnically diverse backgrounds to apply.

We will use this information to select the successful individual and let you know by 24th April



Photo: Ali Curzon




# YMARFERYDD SYMUD I'R BLYNYDDOEDD CYNNAR (GOGLEDD A CHANOL POWYS)

## CYFLE GWAITH LLAWRYDD

Ffoto: Ali Curzon

Impelo

# DDISGRIFIAD PROSIECT

**Mae BACH, prosiect arloesol Impelo ar gyfer y blynyddoedd cynnar, yn archwilio'r gwahanol ffyrdd y gellir cynorthwyo rhieni a gofalwyr i fod yn greadigol gyda'u plant bach trwy gyfrwng dawnsio a chwarae. Mae Bach yn gweithio gyda babanod a phlant bach yn ogystal â chanolfannau i'r blynyddoedd cynnar, gan wneud symud creadigol yn rhan annatod o bob profiad dysgu gyda golwg ar hybu chwilfrydedd creadigol a hyder corfforol. Rydym yn creu cyfleoedd i deuluoedd symud gyda'i gilydd fel modd o gefnogi eu plantos dan 5 oed, yn ogystal â chyfleoedd i'r plant eu hunain ddarganfod annibyniaeth trwy symud.**

Fel rhan o'r prosiect yma, rydym yn cynnig contract llawrydd i unigolyn yng nghanol neu ogledd Powys a fydd yn cynnwys: hyfforddiant a mentora, cysgodi gwaith, datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) ac amser i ddatblygu eich ymarfer symud i'ch galluogi i gyfrannu at brosiect Bach dros Impelo yng ngogledd Powys..

**Ffi: £2000 tua 15 niwrnod**

**Ffrâm amser: Mai - Awst 2023**



Ffoto: Full Mongrel & Co

**Mae'r contract yn cynnwys (yn ddibynnol ar brofiad)**

- Cysgodi sesiynau wythnosol gydag Impelo yn Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd
- Cyflawni unrhyw hyfforddiant sy'n berthnasol, a hyrwyddo CPD yr unigolyn
- Amser mentora a sesiynau 1:1 gyda'r ymarferydd dawnsio arweiniol ar raglen Bach
- Amser Ymchwil a Datblygu personol fel rhan o'r CPD
- Cyflawni sesiynau dawnsio Bach yng ngogledd Powys dros Impelo

Impelo

# AMDANOCHCHI

## HANFODION

- Mae gennych drwydded yrru Brydeinig ac rydych yn fodlon teithio
- Mae gennych brofiad mewn dawnsio, symud creadigol neu lythrennedd corfforol a/ neu gefndir ym myd addysg. Mae croeso yn ogystal i ymgeiswyr â phrofiad ym myd bydwreigiaeth neu fel ymwelwyr iechyd
- Ymrwymiad i ddatblygu dawsnio a symud yn eich ymarfer proffesiynol
- Mae gennych DBS (Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyfredol neu rydych yn fodlon ei gael
- Creadigrwydd, bod yn fodlon gweithio mewn awyrgylch hamddenol, anffurfiol – Mae bod yn greadigol ac yn ymatebol i sefyllfaoedd annisgwyl, cwrdd â phobl a'u derbyn fel y maen nhw, a chreu ar y cyd â chymunedau'n rhan bwysig o ddull gweithredu Bach. Mae'r gallu i fod yn agored, yn llawn mynegiant ac yn gysurus wrth fod yn greadigol yn hanfodol bwysig yn ein sesiynau Bach.
- Rydych yn dwymgalon, yn gyfeillgar ac yn frwd gefnogol i gyfleoedd i deuluoedd symud
- Byddech yn hapus i gymryd rhan mewn gweithdai/cyd-hwyluso
- Brwdfrydedd dros ddawnsio cymunedol a'r buddion y gall eu cynnig i blant, pobl ifanc, pobl ag anableddau ac oedolion hŷn
- Empathi a'r gallu i wrando'n weithredol
- Rydych yn hyblyg ac yn gallu ymaddasu i ofynion a heriau newidiol

## DYMUNOL

- Rydych yn siarad/dysgu Cymraeg
- Profiad o ddawnsio – fel perfformiwr/wraig neu un sy'n cymryd rhan, ac mae gennych chi ddealltwriaeth o'r sector
- Yn byw yng ngogledd Powys neu'n fodlon teithio



Ffoto: Ali Curzon

Impelo

# AMDANOM NI

**MAE IMPELO**
**YN SEFYDLIAD CORFFOREDIG ELUSENNOL**
**BACH OND GRYMUS**
**WEDI'I LEOLI YNG NGHANOL PRYDFERTHWCH POWYS YNG NGHANOLBARTH CYMRU**

Rydym wedi sefydlu partneriaethau ffyniannus dros gyfnod dyrys gydag artistiaid a sefydliadau ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae'r rhain yn tanategu ein profiad o fabwysiadu ac addasu syniadau disglair a gwaith newydd chwareus sy'n arwain at ganlyniadau gweddnewidiol gan hyrwyddo llesiant, cynhwysiant, talent a dysg.

**Ein Cenhadaeth yw ysbrydoli a chreu cysylltiadau rhwng unigolion, cymunedau a sefydliadau trwy gyfrwng llawenydd dawnsio – gan feithrin a galluogi amrywiol lleisiau, chwilfrydedd, uchelgais a dysg gydol oes.**

Er mwyn deall yn well y gwaith a gyflawnwn ni gyda phlant dan bump oed, cliciwch ar y dolenni isod:

Gwefan Bach

Fideo ar gyfer Rhieni/ Gofalwyr a Phlant Bach

Pecynnau Chwarae a Dawnsio



Ffoto: Ali Curzon

Os carech chi dderbyn rhagor o wybodaeth am y prosiect; os oes gennych chi anabledd, a/neu mae angen cymorth rhwyddfynediad B/byddar arnoch er mwyn ymgeisio, neu os oes cwestiynau/ymholiadau gennych, yna cysylltwch â jemma@impelo.org.uk a gallwn ni drefnu sgwrs /tecstio ar y ffôn neu alwad fideo.

Impelo

# I GEISIO

Ebostiwch jemma@impelo.org.uk erbyn 5.00yp, 21ain Ebrill gan gynnwys:

- Paragraff byr (500 o eiriau ar y mwyaf) neu neges sain/fideo fer yn mynegi eich diddordeb mewn ceisio am y prosiect
- CV/disgrifiad o'ch profiad/ diddordebau (ar ffurf dogfen, neges sain neu fideo)

Mae amrywiaeth o bob math yn gwneud Bach a'n prosiectau eraill i gyd yn gryfach, ac rydym yn brwd annog pobl F/fyddar ac anabl, pobl o'r Diaspora Affricanaidd, pobl â'u gwreiddiau yn Ne Ddwyrain a De Asia, a phobl o drasau ethnig amrywiol eraill i ymgeisio.

Fe ddefnyddiwn ni'r wybodaeth hon i ddethol yr unigolyn llwyddiannus, gan roi wybod ichi erbyn 24fed Ebrill



Photo: Ali Curzon